# Beth sy'n Newid yng Nghymunedau sy'n Dysgu Conwy?

## Cynllun moderneiddio 9 mlynedd newydd ar gyfer 2026-2035

Crynodeb



**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eisiau sicrhau bod adeiladau ein hysgolion a'n cyfleusterau addysg yn annog dysgu ac yn lleoedd iach i ffynnu.**

O ganlyniad, rydym wedi datblygu cynllun moderneiddio 9 mlynedd newydd - Strategaeth ar gyfer Moderneiddio Cymunedau sy'n Dysgu.

Mae'n adeiladu ar beth sydd wedi gweithio ers y cynllun diwethaf yn 2010. Mae'n cynnwys popeth, o wella adeiladau ysgolion, mynd i'r afael â heriau, darpariaeth y Gymraeg, cyllid, a sut mae cyfleusterau addysg yn cysylltu â'u cymunedau.

Mae'n egluro'r cynllun i chi, a hoffem wybod beth yw eich barn arno.

## Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol


Yng Nghonwy, mae eich cymunedau sy'n dysgu yn ddynamig, yn gynhwysol ac yn wydn. Maent yn:

- **llawn egni a bywyd** — lle mae dysgu ac addysgu'n ffynnu fel gall disgyblion gyflawni eu llawn botensial
- **croesawgar ac yn agored** — lle gall disgyblion deimlo eu bod yn perthyn a chael eu hysbrydoli
- **cryf a chynaliadwy** — ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, yn ogystal â chefnogi gweithgareddau a dysgu gydol oes.

## Heriau

**Rhai o'r pethau sy'n llywio'r newidiadau hyn.**

- Mae 18 ysgol gynradd fechan (llai na 91 disgybl). Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn dda. Rydym angen gwneud y mwyaf o'n hadnoddau fel y gallwn helpu pob dysgwr.
- Mae niferoedd disgyblion ledled Conwy wedi gostwng, felly rydym eisiau gwneud rhywbeth am hynny.
- Mae rhai adeiladau mewn cyflwr gwael ac yn ddrud i'w cynnal. Ni fydd atgyweiriadau'n ddigon.
- Mae angen amser, adnoddau a gofod i'r cwricwlwm newydd fod yn llwyddiant.



## 8 Blaenoriaeth Fawr

1. **Gwneud cyfleusterau addysg yn addas at y diben** – sicrhau bod disgyblion yn cael ystod lawn o brofiadau dysgu. Mae hyn yn cynnwys y technolegau addysgol mwyaf diweddar a diogel, ac ardaloedd chwarae awyr agored bywiog.
2. **Anghenion Dysgu Ychwanegol** — cydweithio i sicrhau y gall pob disgybl gyflawni eu nodau.
3. **Llai o leoedd heb eu llenwi** – sicrhau bod gan ein hysgolion cynradd mwy na 75% o leoedd wedi'u llenwi, fel y gallant wneud y mwyaf o'u cyllid a'u hadnoddau.
4. **Addysg ôl-16** – adolygu maint dosbarthiadau fel y gall pobl ifanc gael y gefnogaeth orau i lwyddo.
5. **Y Gymraeg a Diwylliant** – cynyddu'r nifer o leoedd cyfrwng Cymraeg yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, a sicrhau bod mwy o gyfleoedd ar gyfer addysg gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.
6. **Cyllid** – gweithio gyda chyfleusterau addysg fel eu bod yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys eu helpu i wneud y mwyaf o gyllid, ymdopi â chostau cynnal cynyddol a bod yn effeithlon o ran ynni.
7. **Sero Net erbyn 2030** – gwneud adeiladau ysgolion yn fwy gwyrdd ar gyfer Sero Net.
8. **Y cwricwlwm newydd** – rhoi'r gofodau, cyfarpar a'r dulliau sydd eu hangen ar ysgolion i ddarparu'r cwricwlwm newydd, a helpu i ddisgyblion lwyddo.

# I fodloni'r blaenoriaethau hyn, gallwn:

### Adeiladu ysgol ardal newydd
Byddai hyn yn cynnwys cau ysgolion presennol ac adeiladu un ysgol newydd i wasanaethau'r gymuned gyfan yn yr ardal ddaearyddol honno.

### Cefnogi ysgolion i gydweithio
Gall sawl ysgol gydweithio'n anffurfiol neu'n ffurfiol, un ai drwy uno neu ffederaleiddio.

### Cynnwys unedau cefnogi arbenigol o fewn ysgolion prif ffrwd
Rydym yn bwriadu datblygu 'Darpariaeth Loeren' - unedau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd i gefnogi disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn caniatáu plant i elwa o fywyd ysgol cynhwysol wrth liniaru'r pwysau ar unig ysgol arbennig Conwy.

### Creu ysgol gydol oes
Mae hyn yn golygu uno ysgolion presennol i ffurfio un ysgol, gydag un Pennaeth ac un Corff Llywodraethu. Gall hyn gefnogi siwrnai sy'n fwy esmwyth, o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwchradd.

### Cau ysgol neu ysgolion
Mewn rhai achosion, efallai mai'r penderfyniad fyddai cau ysgol - ar ôl ystyried dewisiadau eraill yn llwyr, ac ar ôl dilyn ymgynghoriad.

## Y cynllun

Nid oes modd i ni wneud hyn i gyd ar unwaith, felly rydym wedi'i rannu i adrannau.

**Tymor byr**
Blynyddoedd 1-3

**Tymor canolig**
Blynyddoedd 4-6

**Tymor hir**
Blynyddoedd 7-9

### Mae eich Llais yn Bwysig
Byddai unrhyw newidiadau mawr - fel uno neu gau cyfleusterau addysg - yn cynnwys:

- Ymgynghoriad cyhoeddus (byddwch yn cael lleisio eich barn)
- Proses gyfreithiol glir gyda therfynau amser
- Pob barn, risg ac effaith.

## Beth mae'n ei olygu i deuluoedd

- Mwy o ddefnydd cymunedol o gyfleusterau ysgol
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer gofal plant ar safleoedd ysgol
- Cyfnodau pontio mwy esmwyth i blant
- Mwy o gyfleoedd cynhwysol cyfrwng Cymraeg
- Profiad dysgu sy'n fwy cydlynol
- Mwy o gyfleoedd i fwynhau profiadau dysgu awyr agored
- Mwy o gyfleoedd i gysylltu gyda chlybiau ar ôl ysgol a gwasanaethau ieuenctid
- Gwell Amgylchedd Dysgu

## Beth mae hyn yn ei olygu i gyfleusterau addysg

- Arweinyddiaeth gryfach
- Mwy o gydweithio ar draws timau o staff
- Gwell defnydd o adnoddau
- Llywodraethu effeithiol
- Gweinyddu ysgolion yn well
- Rhagor o ddefnydd o systemau digidol sy'n elwa o gyllid Hwb
- Effeithlonrwydd ariannol
- Gwelliannau i'r amgylchedd

## Beth yw'ch barn chi am y cynllun hwn?

Sganiwch y cod QR neu cliciwch ar y ddolen i lenwi'r arolwg byr. - Conwy.gov.uk/cy/Resident/Education-and-Families/Education-Consultations/Strategy-for-Modernising-Learning-Communities.aspx

